**CYNGOR BRO LLANGELER-27:01:2014**

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ionawr 27ain 2014 yn Neuadd y Ddraig Goch,Velindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **01/14 PRESENNOL:** Cyng. John Crossley[Cadeirydd], Jamie Ayres, Ian Davies, Delyth Evans, Brenda Jones,Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. John Wigley. Clerc – Stella Jones
**HEFYD YN BRESENNOL:** Cyng.Sir. K Howell, Cyfieithydd

2. **01/14 HEDDLU:** PC I Ayers. Cynhelir cyfarfod PACT ddydd Mercher 29/01/14 yn Neuadd y Ddraig Goch am 2.30yp ar ôl y cyfarfod yma bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr hwyr. Cwyno bod ceir yn parcio ar y palmant yng Nghastellnewydd Emlyn ac yn safle'r anabl.

3. **01/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Nesta Jones,

4. **01/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Tachwedd 25ain 2013 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. C Jones
Eilydd – Cyng. D Smith

5. **01/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

6. **01/14 MATERION YN CODI :**
6.i.09/13 – Toiledau Parc Puw – dwedodd y Cyngor Sir bod yna broblem gyfreithiol i'w ddatrys ar hyn o bryd.
11.i.06/13 – Graffiti ar yr arosfan bws – CSG wedi dweud y byddant yn delio a hwn.
11.iii.c)06/13 – palmant Rhos – heb glywed nôl ynghylch y llythyr yn cynnig awgrymiadau.
12. iii.11/13 – dŵr o flaen Meysydd – dwedodd Tony Williams bydd y Cyngor Sir yn gwneud draen tu flaen i'r tŷ a bydd y dŵr yn cael ei ddreinio i ddraen yng Nger y Llan. Bydd y gwaith yma ar rhestr waith 2014.

7. **01/14 GOHEBIAETH:**
i. Western Power Distribution – Tystysgrif o gyflenwad difesur.
ii. P Flatt, Haulfryn, Penboyr – Clerc i anfon llythyr o ddiolch am ddod a'r mater i sylw'r Cyngor
iv. Marie Curie – llythyr o ddiolch am y cyfraniad
v. e-bost – Ceridwen Centre News – *nodwyd*
vi. e-bost - Diweddariad am Ariannu Tachwedd/Rhagfyr 2013 November/December Funding Update - *nodwyd*
vii. e-bost – Cau hewl dros dro C1295 Melin Wlân Dyffryn – *nodwyd*
viii. e-bost – Ymgynghori Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor – *nodwyd*
ix. e-bost – ULlC – Penodi Gweithiwr Treth Proffesiynol ac Aelod Academaidd i Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar DrethI - *nodwyd*
x. e-bost – ULlC- Adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – *nodwyd*
xi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol - Simon Thomas – *nodwyd*
xii. e-bost – CSG -Tony Williams – Postyn Milltir – ar ôl ei ail osod gan y Cyngor Sir cafodd ei ddwyn mewn rhyw bythefnos!
xiii. e-bost – CSG - E-wyrddgrawn – *nodwyd*
xiv. e-bost – ULlC – Penodi Gweithiwr Treth Proffesiynol ac Aelod Academaidd i Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Drethi – *nodwyd*
xv. e-bost – ULlC – Adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – *nodwyd*
xvi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *nodwyd*
xvii. Un Llais Cymru & WLGA Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – *nodwyd*
xviii. e-bost – ULlC – Gwireddu'r Geiriau' – *nodwyd*
xix. e-bost – CSG – Gât anawdurdodedig ar LlC 12/35 – *nodwyd*
xx. e-bost – ULlC – Penodi Cadeirydd i Fwrdd Cynghori Twristiaeth Cymru – *nodwyd*
xxi. e-bost – ULlC – Rhaglen Hyfforddi 2014 ar gael ar www.onevoicewales.org.uk/newyddion/rhaglen-hyfforddi- cymru-gyfan-2014-1?set language=cy - *cylchlythyrwyd*
xxii. e-bost – Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoed – *nodwyd*
xxiii. e-bost – ULlC – System Gynllunio – *nodwyd*
xxiv. e-bost – Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoed – *nodwyd*
xxv. e-bost – CCC - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion Ymgynghori ynghlch Canllawiau Cynllunio Atodol (CAA) Drafft – *nodwyd*
xxvi. CSG – Rheoliadau Awdurdodau Lleol(cyfrif sail treth y Cyngor)(Cymru 1995) – Band D £1,455.14
xxvii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *nodwyd*
xxviii. Grant Gwefan – Cytunwyd y dylid derbyn y nawdd o £500 y Clerc i chwilio am gostau ac e-bostio'r Cynghorwyr â'r manylion ar gyfer gwneud dewis.
xxix. e-bost – LlC swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y swm £7.20 yr etholwr

**8. 01/14 CYNLLUNIO**
**CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI**
**Caniatâd**
W/27891 – Mr & Mrs Coomber **,** Penclawdd Isaf, Rhos **–** tyrbin gwynt domestig meicrogeneradiad mewn cae cyffiniol

_________________________________ Cadeirydd _______________________ Dyddiad

W/29253 – Mr Paul Andrew, White Rose Alpacas, Pelican, Rhos SA44 5EE – llochesau cysgodol ar gyfer Alpacas i baratoi cysgodfa a lle i gadw gwair a phorthiant yn sych
W/29310 – David Hannington, Penralltgeler, Llageler, SA44 5ES – estyniad bach tebyg i dŷ-gwydr i'r preswylfa

**Cais Ymgynghori llawn**

W/29253 – Mr Paul Andrew, White Rose Alpacas, Pelican, Rhos SA44 5EE – llochesau cysgodol ar gyfer Alpacas i baratoi cysgodfa a lle i gadw gwair a phorthiant yn sych
W/29268 – Mr & Mrs Campbell, Pant y Ffynnon, Velindre SA44 5XS – Dargadwedd o adeilad i ddarparu llety atodol i'r prif anedd- dŷ
W/29269 – WCS Environmental & Building Maintenance, Former Cattle Market & Coal Yard, Station Yard, Pontwelly SA44 4AR – sied storio arfaethedig i storio offer busnes a cherbydau mewn dull diogel gyda ffens terfyn
W/29310 – David Hannington, Penralltgeler, Llageler, SA44 5ES – estyniad bach tebyg i dŷ-gwydr i'r preswylfa
W/29392 – B & JA Pannett & Leonard, Tai-allan ym Mrynglas, Cwmpengraig SA44 5XS – amrywiad o amodau 1 ar gais W/25527 i ddechrau'r gwaith cyn diwedd y 5 mlynedd o ddyddiad y cymeradwyiaeth
W/29323 – Mr Tom Jones, Gorlan Farm, Pant y Bwlch SA38 9JE – adeilad arfaethedig newydd amaethyddol ar gyfer ciwbicl lletyau gwartheg
W/29483 – Eirlys James, Blaenpant, Hebron, Pencader SA44 4SB – arsefydliad o dwrbein gwynt, defnyddiau cysylltiedig a ffordd fynediad
W/29486 – Mr & Mrs P & A Lee, Plot 2, Pentre Farm, Pentrecagal – adeilad annedd sengl arfaethedig

## 9. 01/14 MATERION ARIANNOL

COSTAU GOLEUO LLWYBRAU 2014/15 - Ynni.........£4,845.02
Cynnal a Chadw ..........£10,556.16
£15,401.18
TAW*(20%)*.......... £3,080.24
£18,481.42

Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/01/2014 ..........£81.00
ii.HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 27/01/14 ..........£10.50
[ caniatad i dalu'r ddau uchod]
iii.DELWYN JONES[cwblhau gwaith peintio hysbysfyrddau]..........£200.00
cadwolyn ..........£19.50

Arian yn y Banc ar 12/11/2013..........£27,625.76

**Derbyniadau**

Praesept ..........£9,639.00

**Cais am Gefnogaeth Ariannol**

Cymdeithas Sioe Amaethyddol Dyffryn Teifi – dod a'r cais gerbron yn nes ymlaen yn y flwyddyn

## 10. 01/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Fforwm Cyswllt Sirol Cynghorau Tref a ChymunedTown - John Cr.ossley – nodwyd taw prif byrdwn y cwrs oedd bod y Cyngor Sir yn dymuno symud gofal gwahanol gyfleusterau a mwynderau
Pwll Nofio Llandysul – Jamie Ayres – cafwyd adroddiad byr llafar ac mi roddodd adroddiad ysgrifenedig llawn

## 11. 01/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Praesept – yn dilyn trafodaeth ac edrych ar gyfrifon cytunwyd codi'r praesept gan 3%

## 12. 01/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

i. Cyng C Roberts – a) Coeden wedi dod lawr ar lwybr cyhoeddus ger Pantybarcud
b) Mae wedi casglu deunydd ar gyfer yr 'Audio Trai' angen grŵp pach i ddelio a hwn – Cyng I Davies, B Jones, J Ayres
ii. Cyng J Ayres – cŵn yn budreddi ar y palmant o sgwâr Gât lan am Felindre uchaf – Clerc i gysylltu â'r Warden cŵn.
iii. Cyng. D Evans – a) arwydd ar groesfan Tycoch wedi t genda'r cyfarfod nesaf.
b) dŵr yn llifo o Gefn Plas heibio Cefn Isaf a c yn casglu i wneud pwll mawr ar yr hewl – Cyng K Howell i ddelio â hwn
iv. Cyng. I Davies - a)Nodwyd bod reilen wedi torri ar lwybr cerdded ger Pantybarcud
b) Pam bod 3 mesurydd traffig ym Mronwydd a 2 yng Nghwmduad a bod rhaid aros mor hir amdanynt.
v. Cyng M Rees – yr hewl yn anwastad iawn ym Mhentrecagal ac o flaen Ger y Llan – Cyng K Howells i ddelio a'r mater.
vi. Cyng B Jones – gofyn a ddylai'r Cyngor wneud rhywbeth ynghylch y cyfnod o ddathlu yr ail ryfel byd– i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor

____________________ Cadeirydd ____________________ Dyddiad

vii. Cyng J Wigley – Dŵr sy'n dod allan o gae Llysnewydd – Cyng K Howell i ddelio â'r mater.
viii. Cygn A Thomas – Beth oedd canlyniad y mesurydd traffig ym Mhont Tweli – Clerc i holi.
ix. Cyng K Howell – a) Cais wedi dod o'r Cyngor Sir yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi symud gorsaf bleidleisio o festri Saron i Neuadd Pentrecwrt.
b) dwedodd bod y dyddiad cau amgynigion am doiled Felindre wedi cau – dau wedi dangos diddordeb.
c) cais am olau stryd tu fas i dŷ yn Allt Penrhiw – Clerc i wneud ymholiadau am gost.

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Chwefror 24ain 2014, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00y.h

______________________________________ Cadeirydd ________________________ Dyddiad